
**Holiadur Amseru Cyfarfodydd**

**1. Ar ba ddiwrnodau ydych chi'n gallu mynychu cyfarfodydd?**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 15 |
| Dydd Mawrth | 21 |
| Dydd Mercher | 20 |
| Dydd Iau | 24 |
| Dydd Gwener | 17 |





**2. Os nad ydych yn gallu mynychu ar un neu fwy o'r dyddiadau uchod, a wnewch chi plis nodi'r rheswm pam (e.e. ymrwymiadau swydd, cyfrifoldebau gofal, oedran, rhyw, anabledd, credoau crefydd ac ati**

- Cyfrifoldeb gofal
- Rwy'n ceisio trefnu gwaith hunan-gyflogedig o gwmpas y cyfarfodydd, ond ddim bob amser yn gallu gnweud hyn
- Mae Dydd Llun yn hynod brysur, ac mae cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd ar ddydd Llun, a'r Heddlu fel arfer ar ddydd Gwener
- Dwi'n gweithio'n rhan amser. Mae'n caniatai gweithio hyblyg sy'n helpu ar gyfer y diwrnodau eraill
- Haws i drefnu gweithgaredd arall
- Ymrwymiadau swydd ac argaeledd darpariaeth gofal plant
- Ymrwymiadau gwaith a chyfrifoldeb gofal ar gyfer yr wyrion
- Fel cynrychiolydd y Cyngor ar Awdurdod Tân, mae rhan fwyaf o'u cyfarfodydd ar ddydd Llun (ond nid bob Llun)
- Ymrwymiadau gwaith. Bosib mynychu ar ddiwrnodau eraill ond mae cleifion yn cael ei bwcio fewn oleiaf 4 wythnos ymlaen llaw felly methu gwneud rhai fyr rybudd
- amh
- Ymrwymiadau swydd - rwy'n gweithio'n llawn amser ar hyn o bryd, ac yn rhan-amser (Llun - Mercher) o 6 Chwefror 2023 ymlaen. Mae'r ateb yn fwyaf perthnasol i'r sefyllfa pan fyddaf a swydd rhan-amser
- Cyfarfodydd eraill/busnes o fewn y ward
- Yn gallu dod ar ddydd Gwener ond yn ceisio ei gadw'n rhydd
- Gwaith yn y ward
- Ymrwymiadau swydd


3. **Nodwch yn nhrefn dewis gydag 1 yr uchaf a 5 yr isaf pa ddyddiadau sydd orau gennych ar gyfer mynychu cyfarfodydd**

| | Llun | Mawrth | Mercher | Iau | Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| Dewis 1 | 5 | 13 | 11 | 13 | 4 |
| Dewis 2 | 2 | 2 | 5 | 3 | 3 |
| Dewis 3 | 2 | 4 | 6 | 7 | 2 |
| Dewis 4 | 7 | 4 | 1 | 1 | 4 |
| Dewis 5 | 8 | 2 | 2 | 0 | 11 |





4. **Ar ba adeg o'r dydd y byddai'n well gennych gychwyn cyfarfod y Cyngor**

| | |
|---|---|
| 9:30am | 8 |
| 10:00am | 13 |
| 2:00pm | 1 |
| 2:30pm | 0 |
| 3:00pm | 1 |
| 5:00pm | 2 |
| 5:30pm | 0 |
| 6:00pm | 0 |
| 6:30pm | 0 |
| 7:00pm | 0 |



5. **Ar ba adeg o'r dydd y byddai'n well gennych gychwyn cyfarfodydd Trosolwg a Chraffu, Rheoli Datblygu, Trwyddedu, Llywodraethu ac Archwilio**

| | |
|---|---|
| 9:30am | 8 |
| 10:00am | 13 |
| 2:00pm | 1 |
| 2:30pm | 0 |
| 3:00pm | 1 |
| 5:00pm | 2 |
| 5:30pm | 0 |
| 6:00pm | 0 |
| 6:30pm | 0 |
| 7:00pm | 0 |




6. **Eglurwch pam eich bod wedi dewis eich hoffterau uchod ac os nad yw amseroedd penodol yn gyfleus i chi (e.e. oherwydd unrhyw ymrwymiadau cyflogaeth, cyfrifoldebau gofal, oedran, rhyw, anabledd, credoau crefydd ac ati)**

- Mae gen i gyfrifoldeb casglu plant o’r Ysgol felly byddai’n haws cychwyn cyfarfodydd yn gynt fel fy mod id dim yn colli diwedd unrhyw gyfarfodydd, Diolch
- Mae’r rhan fwyaf o gyrff allanol yn cychwyn am 10am ac yn caniatai mwy o hyblygrwydd ar gyfer rhieni ifanc sy’n Gynghorwyr ac i deithio tu allan i adeg prysur ar yr A487
- Gwaith a dyletswydd yn y Ward
- Gwaith
- Bore bua hi
- Dyletswyddau eraill/gwaith arall
- Dwi ar gael ar unrhyw adeg ar y cyfan (heblaw pan fo nhw’n gwrthdarro, sydd yn digywdd). Byddai’n well osgoi cyfarfodydd fin nos oherwydd gall fod gan Gynghorwyr ddyletswyddau eraill y neu cymunedau
- Cychwyn mor gynnar a phosib fel bod gweddill y diwrnod ar gael i fynd nôl i’r gwaith
- Dim yn benodol mwy na fod 10.00 yn ddelfrydol gan fod cyfle i "glirio'r ddesg" cyn trafeilio a bod yn bresennol yn y Siambar
- Ymrwymiadau gwaith - byddai cael y cyfarfodydd yn hwyrach yn y dydd yn meddwl fyddai angen i mi gymryd llai o oriau bant o'r gwaith gyfer mynychu.

Byddai gofal plant yn haws yn y nos hefyd gan fyddai fy mhartner adre o'r gwaith hefyd.

- My rydwyf wedi ymddeol o'r gwaith ac felly dwi'n hyblyg o ran amseroedd a dyddiau cyfarfodydd
- Nid yw fy ngwraid yn gweithio ar ddydd Gwener, a dwi'n ceisio cadw'r dyddiad yn glr.  Ar ddydd Llun rwy'n hoffi cysylltu gyda phobl sydd wedi bod mewn cysylltiad dros y penwythnos.  Felly Dydd Mawrth/Mercher/Iau sydd orau gen i ar gyfer cyfarfodydd.  Mae 10am yn amser rhesymol i gyrraedd Aberaeron o Ogledd Aberystwyth gan osgoi traffig Aberystwyth.
- Mae gwaith arall a cyfrifoldebau mynd a plant i'r ysgol yn meddwl bod dachrau am 10 yn meddwl gallai wneud rhein cyn dachre cyfarfodydd. Mae cyfarfodydd yn y prynhawn hefyd yn iawn gyda fi. ni byddem yn gefnogol o cael cyfarfodydd yn y nos gan bod cyfrifoldebau arall bod yn gynghorydd (cyfarfodydd llywodraethol, pwyllgorau neuadd, cynghorau cymuned a mudiadau arall) yn meddwl nid oes nosweithiau rhydd ar gael i fynychu mwy o gyfarfodydd Cyngor/craffu ayb.
- Mae ange i fi fod yn y gwaith yn y pnawniau
- Mae'r atebion oherwydd ymrwymiadau cyflogaeth, sydd wedi tyfu yn y flwyddyn diwethaf. Mae'n llawer haws mynychu cyfarfodydd Cyngor os yw cyfarfodydd ar ol oriau swydd.
- Os taw dim ond un cyfarfodd sydd mewn diwrnod er mwyn ei gwblhau cyn cinio gan nad oes Ffreutur yn Aberaeron
- Rhwyddach i cyflawni gwaith eraill ar ol y cyfarfodydd ac er mwyn cwrdd a preswylwyr yn y ward.
- Mae'r amserau a nodwyd uchod yn ffitio mewn gyda dyletswyddau gwaith arall
- 10.00 yn amser addas i gael cyfarfod
- Mae deg o'r gloch yn gyfleus.
- Mae f'argaeledd i fynychu cyfarfodydd am amrywio o wythnos i wythnos (o ran amser a diwrnodau) oherwydd gofynion y busnes
- I beidio cychwyn yn y bore a chael cyfarfodydd yn y pnawn sy'n gwastraffu'r bore.  Gallwch drefnu cyfrifoldebau eraill yn y bore oherwydd fod ffenest amser cyn cyfarfod yn y pnawn
- Er mwyn cael digon o amser i deithio i Aberaeron